

Cyflwynwyd y papur hwn gan Manon Eames yn sesiwn Archif Menywod Cymru ym Mhabell y Cymdeithasau ar 11eg Awst 2017 yn Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn.

(Perthyn yr hawlfraint i'r awdur. Cedwir pob hawl. Ni ellir ailargraffu nac atgynhyrchu na Defnyddio unrhyw ran o'r papur hwn trwy unrhyw ddull electronig, mecanyddol neu arall, na wyddys ar hyn o bryd neu na ddyfeisiwyd eto, gan gynnwys llungopio Na recordio, neu mewn unrhyw storfa wybodaeth na system adalw heb ganiatâd ysgrifenedig yr awdur)

This paper was presented by Manon Eames at the Annual AMC/WAW session in the Societies' Tent at the Anglesey National Eisteddfod 2017

See a brief English summary of the paper at the end

Merched, Môn a'r Môr

Diolch am ofyn i mi gyflwyno'r sesiwn yma i goffáu, a thalu teyrnged i waith fy Nhad, Aled Eames, a'i gyfaill, Robin Evans, a oedd yn ddau mor llwyddiannus ac arloesol yn dadlennu a darganfod ac egluro cymaint o wybodaeth am hanes morwrol ein gwlad.

Pan gyhoeddodd Dad ei gyfrol gynta, "Ships and Seamen of Anglesey" ym 1973, mi gychwynodd ar dipyn o fordaith ei hun, mordaith a arweiniodd iddo gael ei ystyried yn y diwedd gan Basil Greenhill, cyfarwyddwr Yr Amgueddfa Forwrol Genedlaethol yn Greenwich, Llundain, yn "one of Wales's leading contemporary historians.... More than anyone else, responsible for bringing the study of the Welsh maritime heritage into the mainstream of academic and popular historical research and writing."

Yn sicr, mi roedd gwaith Dad yn y dyddiau cyntaf yna yn arloesol, a dw i'n gwybod bod ei frwdfrydedd didwyll a di-flino a'i "angerdd" am y môr a'n perthynas ni fel Cymry gydag o dros y canrifoedd, wedi ysgogi llawer o bobol

eraill i astudio ac ymchwilio ac ysgrifennu am yr agwedd yma o'n treftadaeth : ac un o'r rhain, o'dd Robin Evans.

Ac felly dyma fi wedi bod yn pori drwy erthyglau a llyfrau'r ddau eto yn ystod yr wythnosau diwethaf, yn ceisio crynhoi, a dewis a dethol darnau, elfennau, ffeithiau, dehongliadau fyddai o ddiddordeb. Mae'n amlwg bod yna lawer mwy o waith i'w wneud yn y maes, yn enwedig wrth son am berthynas merched a'r môr, ac unwaith eto, dw i'n diolch i Archif Menywod Cymru am y gwahoddiad heddiw, achos dw i wedi mwynhau yn fawr mordwyo drwy eu hymchwil, ysgrifau erthyglau a chyhoeddiadau. Dw hefyd yn gobeithio y bydd y rhai ohonoch sy'n enedigol o Fôn yma heddiw yn maddau i mi os ydw i yn cyfeirio o dro i dro at ambell i ferch o Sir Gaernarfon hefyd ? Mae'n amhosib eu hosgoi nhw yn y llyfrau a bod yn onest, ond mi driai roi mwy o sylw i Moelfre ac Amlwch na Chaernarfon a Port ! (Beth bynnag, tebyg iawn oedd profiad y merchaid o'r ddau le)

Mae cysylltiad merched gyda'r môr yn ein hanes morwrol, yng ngeiriau Robin, yn allweddol, yn ogysal ag amrywiol. Yn sicr, mae merched wedi cyfrannu, ac wedi ymwneud â, busnes a busnesau y môr, ers canrifoedd - ac mae hynny yn wir am Gymru yn o gystal a gwledydd eraill. Ac yn cadarnhau hynny, gwelir llyfr Robin "Merched y Mor" - lle ceir hanes merched yn achubwyr bywydau ac yn anturiaethwyr, yn wragedd capteiniaid a merched morwyr yn hwylio'r glannau ac yn teithio'r byd : merchaid yn fuddsoddwyr mewn llongau wedyn, ac yna yn ymfudwyr - boed yn wirfoddol neu'n athrawon neu'n genhadon - neu'n garcharorion; pysgodwragedd hefyd - a hyd yn oed puteiniaid porthladdoedd ein harfordir - i gyd yng nghlwm mewn un ffordd neu arall â'r mor, a'i afael a'i ddylanwad ar fywydau glannau ei gwlad.

Mi rydan ni erbyn hyn yn ymwybodol, diolch i waith 'Nhad a Robin a nifer o haneswyr eraill, bod nifer fawr o ferched wedi teithio ar y môr ar gychod a llongau ar hyd y canrifoedd, yn enwedig yn y 4ydd ganrif ar bymtheg, pan welwyd y cludo a'r mudo mwya. A hyn yn wyneb ofergoelion lu - ar draws y byd - yn mynnu bod merched (a, gyda llaw, moch, ieir, cathod, llwynogod, cwn yn udo, clerigwyr, a sêr yn gwibio) yn siwr o achosi anlwc, anffawd

tywydd garw neu drychineb i forwyr. (Cofier, ar y llaw arall, mae'n werth nodi, fel y gwna Robin Evans, o'r ddeunawfed ganrif ymlaen, daeth merched hefyd yn flaenddelwau llawer mwy amlwg ar longau - a hynny yn seiliedig ar y gred bod gan eu llygaid allu mordwyo arbennig).

Wedyn, oedd, mi roedd merched ar y môr yn aml, a does dim rhyfedd bod tystiolaeth mewn llawer i ddogfen yn cadarnhau bodolaeth merchaid ar fwrdd llong neu gwch. Fel mae Nhad yn nodi yn ei gyfrol am "Gwraig y Capten" (sef dyddiadur un ferch yn arbennig, Elen Owen, Tudweiliog, o'r fordaith adref o San Francisco rownd yr Horn yn y *Cambrian Monarch* ym 1882) dengys cyfrifiad 1861, er enghraifft, bod llawer o ferchaid yn teithio ar longau bach y glannau - e.e. cyfeirir at 'Elen Jones, dwy ar hugain oed, "domestic at present out of situation" ar fwrdd y slwp fach *Sampson* wedi angori ger Beaumaris ar noson y cyfrifiad 1861. Ac ar y sgwner *Sarah* wedi angori gerllaw, roedd Margaret Thomas, 34 oed o Foelfre, gwraig y Capten, John Thomas.

Ond, gyda llaw, nodyn o chi bobol Porthaethwy - os oedd o'n gyffredin i nifer o ferchaid (a phlant, a wnelo hynny) hwylio fel gwraig, a mab neu ferch, y Capten ar hyd y glannau neu i bedwar ban byd, nid felly ar longau teulu Davies y Borth. Doedd Capteiniaid y Davieses ddim yn cael mynd a'u teuluoedd i'r môr gyda nhw, ac mae'n debyg bod y cwmni wedi colli rhai o'r capteiniaid mwyaf galluog oherwydd y rheol yma. Er enghraifft Capten William Williams, Rhiw, a Chaptin Thomas Williams, Caernarfon. Pan adawodd William Williams gwmni Richard Davies y Borth am iddo wrthod i'r Capten fynd a'i wraig efo fo ar ei fordaith nesa, derbyniodd ateb digon swta : "As you are aware that on that point our decision has been taken long since, we can only express our regretand we are glad that you sent to us at once your decision as we should have been *highly annoyed* if it had been left to the last moment" - ac fel mae Dad yn ychwanegu, yn unol a'i ddaliadau yntau, parthed y teulu Davies : 'Y dosbarth canol yn prysur troi'n uchelwyr... yn barod iawn i roi arian mawr i achosion crefyddol, capeli, Y Genhadaeth Dramor ac yn y blaen, ond yn trin eu morwyr, hyd yn oed eu meistr-forwyr mwyaf galluog, fel gweision isradd, heb llawer o ddynoliaeth". Ac mae Dad yn mynd ymlaen i ymfalchio yn llwyddiant William Williams ar ôl iddo adael

gwasanaeth y Daviesiaid - daeth yn un o'r dynion cyntaf ym Mhrydain i ennill 'Extra Master's Certificate,' a daeth o, a'r Capten Thomas Williams, Caernarfon, a ymddiswyddodd am yr un rheswm hefyd, yn berchnogion llongau mawr llwyddiannus iawn eu hunain. Roedd y ddau Capten yn golled amlwg, felly, i'r teulu Davies oherwydd eu rheol, ac roedd ganddynt yn awr yr hawl i fynd a'u teuluoedd gyda nhw i le bynnag y mynnont.

Ond cyn mynd ati i edrych ar hanes rhai o'r merched a deithiodd gyda'i gwyr, rhaid nodi mai gwragedd capteiniaid yn unig oedd yn gwneud hyn fel arfer. Roedd yn rhaid i wragedd morwyr cyffredin - hyd yn oed mêt - aros adre, i gynnal y teulu a'r cartre, yn ystod absenoldebau hir eu gwyr....

Sut oedd bywyd felly iddyn nhw, yn ystod cyfnod y morio mawr ? **Gwragedd y morwyr ?**

O safbwynt eu cartrefi, roedd pethau'n reit debyg i ardaloedd diwydiannol eraill - mi roedd yna gartrefi, yn enwedig yn y porthladdoedd mawr, eitha newydd, ond roeddynt o safon gwael : sy'n debyg iawn i beth ddigwyddodd yng nghymoedd y de. Ac yng nghefn gwlad wedyn, doedd pethau fawr gwell - weithiau yn waeth, gyda teuluoedd mawr yn byw mewn bythonnod un neu ddwy stafell, efo llawr pridd, gydag ychydig iawn o gyfleusterau. Mi roedd Moelfre e.e. yn dibynnu ar dair ffynnon am ddwr, tan ddiwedd y 19ganrif, pan gafwyd un pwmp dwr ar safle ffynnon ar lan y môr, ond ar dywydd garw roedd hwn yn cymysgu efo dwr heli ac felly'n ddi-werth am gyfnod o rai dyddiau. Roedd llawer o deuluoedd yn cadw ieir, neu fochyn - ac yn amlwg mi roedd tloidi'n gyffredin. Mae Nhad yn cyfeirio at ddyddiadur arall yn ei lyfr "Shipmaster" - sef hanes Capten Robert Thomas, Llandwrog - lle mae'r Capten yn cofio caledi ei blentyndod ganol y pedwaredd ganrif ar bymtheg -

"I had gone with my mother many a time to Carnarvon with a pig with a string fast to its legs and if a suitable price was not got, we would bring it home again : I look back with wonder and pain at those days... a woman and children from Llandwrog, driving a little pig to Caernarfon, and then standing

all day with it in the wet and cold and perhaps after all no-one asking what it was for'.

Wrth gwrs, er gwaetha'r math yma o dlodi (oedd yr un peth ar draws Gogledd Cymru) mae'n debyg fod gan ferchaid a oedd yn magu teulu mewn ardaloedd amaethyddol fel Moelfre fantais : mi roedd yn hawdd cael llefrith, ac yn ol Robin Evans, mi roedd y plant yn aml yn cael caniatad ffermwyr i nol rwdan o'r caeau, bob rhyw hyn a hyn. Ac am ben hynny, mi roedd gan y môr ei hun hefyd ei haelioni i gynnig i gymunedau y glannau : mi roedd yn bosib cranca gyda'r nos ar drai, a chasglu cregyn gleisio : ac ym Moelfre, mi fyddai stor o benwaig wedi eu halltu mewn casgen yn helpu i gadw llawer o deuluoedd dros y gaeaf.

Ond yn y fath amodau caled, sut ar wyneb y ddaear oedd gwragedd morwyr yn ymdopi, gyda'i gwyr yn absenol am fisoedd, blynyddoedd hyd yn oed ?

Dychmygwch, absenoldeb y tad/gwr/mab neu frawd am amser hir : blynyddoedd weithiau, yn enwedig ar y llongau "fforin", fel y'i gelwid, ond mi roedd hyd yn oed y llongau arfordirol yn gallu bod ffwrdd am flwyddyn gron. Yn, mi fyddai gan rai merched fab neu feibion ifanc, gŵr, a brawd - i gyd efallai i ffwrdd ar un pryd, ac ar draws pedwar ban byd.

O'n i'n meddwl wedyn, ac yn ceisio cymharu hyn gyda phrofiad gwragedd y cymunedau glofaol yn y de, ac yn y chwareli llechi yma'n y Gogledd. Gwragedd eraill a'u gwyr yn gweithio mewn diwydiannau peryglus, s'dim dwywaith. Ond o'n i'n meddwl am y gymhariaeth rhwng pryder gwragedd y maesydd glo, yn poeni yn ddyddiol am eu dynion o dan y ddaear, ond yn eu gweld (gobeithio) bob nos. Mae'n wir yn y cymunedau llechi bod chwarelwyr weithiau yn aros mewn barics dros nos, am yr wythnos, gan ddod adre ar y penwythnos, neu ddydd Sul yn unig; ac mae yna forwyr y glannau a oedd yn hwylio gan amlaf rhwng porthladdoedd Iwerddon, gogledd Cymru a gogledd orllewinol Lloegr, a oedd yn aml yn hwylio heibio eu cartrefi : weithiau'n angori yn y bae ger cartref y capten, neu'n Porth Penrhyn ym Mangor efallai,

ar nos Wener, ac yna'n cerdded adre am y penwythnos i'r Felinheli neu bentrefi Mon, gan ddychwelyd ar y bore Llun.

Ond mi roedd rhan helaeth o wragedd morwyr yn debycach i wragedd y gad - yn wynebu misoedd, blynyddoedd o bryder a phoeni - heb newyddion, na ffôn, na phost : dim ffordd o gysylltu yn rheolaidd. Byddai'r gwragedd yma ddim yn siwr ym mha le o'dd eu dynion o un diwrnod i'r llall hyd yn oed, na beth oedd hynt a helynt eu mordaith. Ac os nad oedd ganddynt y faich o orfod cadw eu cartrefi - a'u gwyr - yn lan o lwch glo neu lechi, a chario a pharatoi dwr berwedig bob nos i'r baddon ac ati, doedd ganddynt neb chwaith i helpu gyda tasgiau fel casglu tanwydd ac i edych ar ol y cartre a'r plant.

Mae sawl sylw diddorol yn codi yn llyfrau Robin a Dad am y fath yma o fywyd i ferch : yn un peth, mi roedd absenoldeb eu gwyr, a'r ffaith bod y cymunedau arfordirol yn tueddu i fod yn rhai clos, yn gosod y gwragedd yma ar yr un lefel, i raddau helaeth - boed nhw'n wraig i Gaptin neu forwr cyffredin. Ac mae yna dystiolaeth diddorol hefyd yn llyfr Robin "Merched y Môr" yn dangos nad oedd pethau yn fêl i gyd pan oedd y morwyr yn dychwelyd gartre. Roedd sawl dyn yn ei chael yn anodd i ddygymod, ac yn teimlo ei fod yn ddiangen weithiau, gyda'r wraig a oedd wedi bod yn fam ac yn dad i'r teulu, yn ei absenoldeb - a hynny'n effeithlon iawn. Hi yn aml oedd yn gyfrifol am ddisgyblaeth hefyd - hyd yn oed ar ôl i'r gŵr ddychwelyd. Yn ôl ymchwil gan y Ganolfan Ymchwil Rhyngwladol y Morwyr "mae gwraig llongwr yn fwy o feistres yn ei chegin ei hun nag unrhyw wraig arall."

Ac er bod Robin yn dadlau - yn argyhoeddiadol - mai 'myth' yw'r syniad bod y cymunedau yma'n rhai arbennig o 'fatriarchaidd', mae'n amlwg bod gan y gwragedd nid yn unig berthynas agos, ond cynyrchiol, â'i gilydd. Mae'n amlwg bod mamau a gwragedd yn aml yn trefnu gwaith i'w gwyr a'u meibion yn uniongyrchol gyda gwragedd y Capteiniaid : gellir meddwl amdanynt i raddau fel rhyw fath o labour exchange : ac mi roedd y trefniant yma yn gweithio'r ddwy ffordd - o safbwynt y Capteiniaid (a'u gwragedd) yn enwedig y rhai a oedd yn berchnogion llong eu hunain, mi roedd bodolaeth gweithlu parod a phrofiadol yn y gymuned leol o fudd mawr.

Ac mi roedd gan y 'trefnu' yma effaith arall : golygai ei fod yn eitha hawdd sicrhau lle ar long, rhwng cysylltiadau teuluol, a'r ffaith bod capteiniaid a morwyr cyffredin, yn ogystal a'r gwagedd, yn cymysgu gyda'i gilydd yn naturiol, ac felly roedd y morwyr yn eitha hyderus o'u cyflogau, a mater bach mewn cymunedau clos o'r fath oedd gadael llong am gwpwl o fisoedd, dod adre, ac yna dychwelyd i'r mor nes ymlaen. Mewn rhai ardaloedd mi fyddai morwyr yn gadael eu llongau yn arbennig i ddod adre ar gyfer y tymor pysgota er enghraifft - i lenwi'r casgenni yna gyda phenwaig, mae'n siwr.

O'n i'n son gynna am "bryder" y gwagedd yma. Oedd gan wragedd morwyr mwy o le i boeni tybed na gwagedd y diwydiannau eraill ? Mae'n rhaid bod dystio a chlywed am llawer i longddrylliad a cholledion bywyd, fel y gwnaeth nifer fawr iawn o ferchaid glannau Môn a Sir Gaernarfon, wedi rhewi eu gwaed, a'u gwyr yn bell o adre ar y môr mawr. Dyna'r *Royal Charter* enwog yn 1859, a'r deg sgwner arall a gollwyd ar yr un noson. Mae Robin yn cymharu nifer y marwolaethau yn ei lyfr, sy'n profi heb unrhyw amheuaeth mor beryglus oedd gyrfa ar y môr. Ar gyfartaledd, rhwng 1891 a 1904 mae llawer mwy o ddynion - chwech i wyth gwaith mwy ohonynt - yn marw ar y môr. e.e. yn 1900 collwyd 1,537 ar y mor, a pyllau glo 1,101 ond mae hynny yn gyfystyr a 1 mewn 146 ar y mor, o'i gymharu a 1 yn 771 yn y pyllau : a dydi'r fffigyrâu yma ddim yn cynnwys teithwyr na physgotwyr.

Felly, mae'r cwestiwn yn codi - pam mynd i'r môr o gwbl ? Pam gadael mam neu wraig a chartre a theulu i deithio'r moroedd mawr ?

Wrth gwrs, mi roedd gan traddodiad teuluol a chymunedol ddylanwad mawr, ac mi roedd rhamant y môr yn bendant yn apelio hefyd, ond mae yna rhesymau ymarferol iawn hefyd. Yn gynta,' ac yn amlwg, y prinder gwaith a oedd yn bodoli yn yr ardaloedd gwledig. Mae hefyd yn wir bod y cyflogau dipyn yn uwch na gwaith ym myd amaeth. Ond yn bwysig iawn, mi roedd gyrfa ar y môr yn unigryw ymhlith y diwydiannau eraill, am ei fod yn bosib, gyda gwaith caled, ennill dyrchafiad yn gyflym, a oedd wedyn yn arwain at y posibilrwydd o ennill arian mawr. Byddai'r llongwr penderfynol ac uchelgeisiol

yn gallu sicrhau dyrchafiad ar raddfa a chymflymdra nad oedd yn bosib ar y tir, gan fynd o forwr, i fet, ac efallai yn gapten yn gymharol sydyn. Doedd y math yma o wella safon bywyd ddim yn opsiwn i'r glowr, chwarelwr, na'r gwas ffarm cyffredin.

* * * * *

Felly, dyna ni, dipyn o gefndir a hanes gwragedd morwyr, a arhosodd adre, a'u cymuned.

Ond beth am y merchaid eraill oedd a chysylltiad gyda'r môr - yn fwy uniongyrchol, drwy eu gwaith ?

Roedd llawer o ferched Cymru yn gweithio yn y Diwydiant Pysgota wrth gwrs, ar hyd arfordir Cymru e.e. Da ni gyd yn gwbod mae'n siwr am y diwydiant cocos ym Mhenclawdd a gogledd Gwyr, a chasglwyr cregyn gleision yn ardal Conwy. Ond mi roedd merched hefyd yn gweithio'r glannau drwy casglu gwymon - nid yn unig ar gyfer bara lawr yn Ne Orllewin Cymru, ond mi roedd yna hefyd ddiwydiant llosgi gwymon a rhedyn yn Sir Gaernarfon, cynnyrch a oedd wedyn yn cael ei yrru i Loegr i wneud potash; ac yn bwysig iawn yma ym Mon, y diwydiant moresg - plethu matiau a rhaffau yn ardal Niwbwrch, datblygodd yn ddiweddarach yn ddiwydiant creu basgedi, matiau bwrdd ac ati. Gwaith i ferchaid yn arbennig oedd yr engreiffiau hyn, ond mi roedd yna ferched hefyd yn cymorthwyo eu gwyr wrth eu gwaith - fel ceidwaid goleudai er enghraifft. A dyna i chi wraig y Capten Thomas Hughes, Moelfre. Wedi iddo fo lwytho ei gargo, byddai yn anfon telegram ati hi yn eu tyddun ym Moelfre, a'i gwaith hi wedyn oedd cysylltu gyda masnachwyr lleol, a threfnu lle a phryd fyddai'r cargo yn cyrraedd. Roedd ganddi hi felly ran bwysig yn nhradfodion y busnes.

Ac wrth son am fusnes, er nad oeddynt, mae'n debyg, yn fuddsoddwyr amlwg, mi roedd nifer eitha sylweddol o ferched yn buddosddi ym musnes y môr drwy brynnu cyfran mewn llongau, ar hyd y blynyddoedd.

Ond mae yna un maes lle byddwn i ddim wedi disgwyl clywed am ferched yn rhagori - a hynny ydi Addysg y Môr. Mi roeddwn i wedi clywed rhyw son am ferch o'r enw Cranogwen, o Langrannog, sef Sarah Jane Rees, a aned 1839 yn ferch i Capten John Rees. Roedd hi wedi hwylio llawer gyda'i thad ac mi aeth ati i ddysgu morwriaeth wedyn. Ond mae'n debyg bod Ann Edwards, merch Capten William Francis Amlwch, gystal athrawes os nad gwell. Roedd ei thad yn dysgu morwriaeth yn Amlwch, ac ar ol iddi symud i Gaernarfon, roedd Ann hefyd yn dysgu mordwyaeth a morwriaeth, o 1830 tan ei marwolaeth yn 1889 yn 70 mlwydd oed. Mae'n debyg mai Ann oedd yn gyfrifol am ddysgu mwyafrif helaeth o forwyr ardal Caernarfon - ac mi roedd ganddi ddisgyblion o Fon hefyd. Mae'n rhaid ei bod hi yn athrawes arbennig : yn 1878, e.e. cyhoeddwyd bod 32 o ail swyddogion wedi pasio'i arholiadau capteiniaeth - roeddynt i gyd o ardal Caernarfon a de Mon - ac mi roedd pob un wedi cael ei addysgu gan "Mrs Edwards, New Street". Hi gyda llaw, addysgodd Capten Robert Thomas, a hwyliodd y *Meirioneth* ar y fordaith gyflymaf erioed o Gaerdydd i San Ffransisco yn 1887/8. Cafodd Ann ei gwobrywo am ei gwaith gyda phensiwn y wladwriaeth gan Fictoria.

A merch hefyd oedd ar flaen yr ymgyrch i achub bywydau ar y mor. Yn 1823 pan dystiodd Frances Williams, allan am dro gyda'i gwr James, longdrylliad y paced hwylio yr *Alert* rhwng y Skerries/ y Moelrhoniaid a'r Ynys gyda cholled o 140 o'r teithwyr arni, a hynny mewn tywydd llonydd, mi aeth ati i ymyrchu i gael badau achub ar yr ynys. Ac mi roedd gwir angen - yn ol Dad, yn 1825 llongdrylliwyd o leia 14 o longau ar arfordir Môn, yn 1826, 25 arall, ac yn 1827, 21 - ffygyrau'n adlewyrchu prysurdeb cynyddol bae Lerpwl. Sefydlodd Frances a'i gwr yr *Anglesey Association for the Preservation of life from Shipwreck* yn 1828, arweiniodd at brynnu badau achub cynta'r Ynys. Ac mi roedd Frances yn amlwg yn dipyn o hogan. Ar un achlysur derbyniwyd neges, mewn tywydd difrifol, bod ceidwad y goleudy ar y Moelrhoniaid yn sal ac angen sylw meddygol; ond mi roedd y gwynt o'r gorllewin yn rhy gryf i fad achub Caergybi allu cyrraedd y goleudy; ond mi roedd yn lygedyn o obaith y byddai bad achub Cemlyn efallai yn gallu llwyddo gan dacio yno. Ac felly fe aeth Frances gyda'i gwr ar y cwch, er gwaetha'r storm, gyda'i bag meddygol, a rhoi'r cymorth angenrheidiol i'r ceidwad druan. Dipyn o ddynes yn wir.

Fel yr o'n i'n son - o'r ychydig esiamplau uchod, mae'n amlwg bod merched wedi bod nid yn unig yn gysylltiedig a pherthynas Cymru â'r môr - ond wedi cyfrannu yn helaeth ar sawl lefel.

Ond, beth am i ni droi yn awr at y merched hynny a deithiodd yn gyson ar llongau : sut oedd bywyd ar y môr tybed i'r merched yma ?

Mae'n debyg fod gwagedd - a meibion a merchaid - Capteiniaid yn teithio yn fwy aml ar longau'r glannau, yn hytrach na'r rhai "fforin", ac yn aml, dyma oedd mis mêl llawer ohonynt. Wedi priodi capten (a phan mae rhywun yn sylweddoli bod 44 'master mariner' yn byw ym Moelfre yn unig ar un adeg, mi roedd yna ddigon ohonyn nhw o gwmpas y lle !) y llong o dan ei ofal fyddai cartre cynta ei wraig. Dyna i ni Elizabeth Davies, merch y meistr longwr Owen Lewis, Moelfre : priododd hi Gaptin Henry Roberts yn 1914 a treuliodd ei mis mel ar yr *Earl of Lathom* yn cludo llechi o Gaernarfon i Hamburg, gan deithio wedyn oddi yno i Boulogne, Ipswich, Newcastle a Pentewan, cyn dod nol i Foelfre. Cafodd priodferch y Capten David Williams, Capten yr Isallt mis mêl hyd yn oed yn fwy anturus. Ar ol eu priodas, mynnodd ymuno gyda'i gwr newydd ar ei daith o Falmouth i gasglu llechi ym Mhorthmadog. Ond ar ei noson gyntaf un, cafwyd gwrthdrawiad rhwng yr Isallt a'r *SS Atlantic*. Yn ôl Dad, neidiodd y ferch ifanc o'i gwely yn gwisgo dim ond cwrlid y gwely a rhedeg i'r dec, lle sylweddolodd bod yr Isallt yn suddo'n gyflym. Fe'i hachubwyd ynghyd a'i gwr a'r criw - ond fel mae Dad yn awgrymu : dyna ffordd i ferch ifanc 'fwrw ei swildod' ynte ?

O ddyddiau cyntaf eu priodas, mi roedd gwagedd y Capteiniaid - a'r plant a anwyd iddynt wedyn (nifer ar y llongau eu hunain) yn teithio yn aml gyda'i gwyr i ble bynnag yr aethant, ond unwaith byddai'r plant hynny yn cyrraedd oedran ysgol, hwylio ar longau'r glannau oedd yr opsiwn ymarferol i'r teulu - gyda Gwraig y Capten, a'u hepil, yn ymuno efo'r Capten yn ystod gwyliau'r haf. Gallai hyn olygu mordeithiau gymharol byr, ar sgwneriaid, yn aml i'r Almaen - Hamburg - a Scandinafia - Copenhagen : ac wrth gwrs mi roedd y bechgyn - a'r merched - felly yn dysgu am fywyd ar y môr yn ifanc iawn.

Ond y ddelwedd mwya rhamantus i ni mae'n siwr ydi'r darlun o'r gwragedd dewr hynny a deithiodd y byd ar y llongau llawn rig a barciau, yn gwybod eu bod yn ymrwymo i flynyddoedd o grwydro'r moroedd mawr - moroedd peryclaf a chaletaf y byd. Mae llyfr Dad, 'Gwraig y Capten' sef dyddiadur Ellen Owen y soniais amdani gynna, yn rhoi darlun manwl o fywyd ar y *Cambrian Monarch* - merch ffarm wedi llwyddo i ail-gynefino ar y môr mawr : ac mi roedd yna llawer ohonynt.

A doedd hyn ddim yn hawdd. Fel mae Dad yn son -

'O fod ar dir sych, ac ymysg teulu a chyfeillion, mae'r wraig yn cyfyngu'i hunan i fod yn garcharor yng nghaban a phŵp y llong, heb unrhyw fenyw arall i rannu cyfrinachau, ofnau, amheuan, na hyd yn oed i drafod y tywydd ! Byd y morwr a thywydd y morwr, nid yr amaethwr, yw ei byd hi bellach, a'r awdurdod, yr oracl yn y byd yna yw ei gŵr, y capten'.... Â ymlaen i son amdanynt yn profi 'problemau iechyd, anhwylder, salwch mor, a diffyg cyfeillgarwch, yr ymdeimlad o unigrwydd hollol' : profiad unig ofnadwy ar brydiau mae'n siwr.

Wedi dweud hynny, mi fyddai gwraig y Capten yn treulio'r rhan fwyaf o'i hamser yng nghaban y Capten yn y starn, caban lled gyffyrddus i gymharu efo cyfyngder gweddill llong : ond wrth gwrs, rhesymau masnachol oedd y tu ôl i hyn yn hytrach na sicrhau esmwythdra i'r Capten : mi fydda yntau, fel meistr y llong, yn gwneud llawer o fusnes efo asiantaid a chwsmeriaid mewn porthladdoedd dramor, ac yn fwy tebygol o daro bargaen drwy greu agraff ei fod yn bwysig, ac yn byw mewn steil. Mae "Inventory" y *Langdale* e.e., llong o Lerpwl dan Gapteiniaeth Griffith Jones, Pwllheli, yn cynnwys piano a gramoffon, 4 'deck chair', 2 feic, set llestri te arian a set china, llyfrau - a twb golchi traed, ymysg pethau eraill.

Ond serch y "moethusrwydd" yma, mi roedd yn rhaid i'r gwragedd ddygymod a chaban nad oedd byth yn llonydd, gallai fod yn wlyb, yn oer, neu'n annioddefol o boeth - waeth pa mor foethus. Treuliodd Grace Owen druan, o

Nefyn, gwraig newydd y Capten William Davies, bythefnos gyfan yn gorwedd yn ei bync ar y *Gwydr Castle*, yn rhy wan hyd yn oed i godi ei phen. Mae Dad yn pwysleisio ei fod yn bwysig i'r 'wraig' beidio ag ymyrryd a gweithgareddau'r llong, yn enwedig y Stiward, a'r giall a'r cwc. Ond dwi'm yn meddwl bydda Grace druan wedi neud llawer o hynny a hithau'n swp sal !

A meddylwch y tywydd yr oedd yn rhaid i ddeiliaid y llongau yma ei wrthsefyll : yn enwedig wrth gwrs wrth rowndio'r Horn. Ar y *Langdale* o'n cyfeirio ati gynna, hwyliodd Ellen Jones Griffiths, Pwllheli, a'i phlant, o leia 6 gwaith o amgylch yr Horn : a'r tro cynta un, gwelodd yr Horn o leia bum gwaith yn ystod y 6 wythnos y bu'r *Langdale* yn brwydro yn erbyn y stormydd cyn mynd heibio.

Mae straeon arbennig i'r Ellen yma, a'r llong, y *Langdale*. Dyma'r fam a aeth a'i baban chwe mis oed John, gyda hi, ac wedyn esgorodd ar y ferch - "Môraned" - yn 1909 - fel y mae Ellen ei hun yn nodi yn blaen a di-ffys 'Baby born North Atlantic 37 degrees 42 minutes N 33 degrees W 5 a.m.' Mae'n debyg bod Capten Griffith wedi mynd ar y pŵp ac wedi deud wrth y criw "Gentlemen, we have another passenger." Mae enwau plant eraill yn rhoi cliwiau i ni hefyd - Robert David Valpariso Roberts, Francisco Griffith, a 'Mercy Malvina Thomas' a aned i Catherine Thomas, Llanybi ar ôl mordaith erchyll lle gollwyd y llong y *Criccieth Castle* wrth rowndio'r Horn. Llwyddodd Catherin i gyrraedd ynysoedd y Falklands mewn cwch agored gyda'i gwr Capten Robert Thomas a'i mab Robert, a geni'r baban yno rhai wythnosau wedyn. Mercy Malvina yn wir !

Ond er bod Dad a Robin yn son bod y merched yn gorfod parchu gweddill y criw a'i dylwestwyddau, mae yna straeon am ferched yn cymryd rhan mwy ymarferol ar y llongau yma. Aeth Elizabeth Jones, Amlwch, i'r môr gynta yn 1897 ar y *Gauntlet*, sgwner 120 tunnell, gyda'i mam, gwraig y Capten, Capten Bob Jones, neu 'Hurricane Bob' fel y'i gelwid. Roedd ei mam yn cwcio ar y llong - ac yn ceisio paratoi cabaitis coch a menyn pot i'w gwr fel amrwyaeth i'r "sgedi caled" arferol. Gadawodd Elizabeth y *Gauntlet* i fynd i'r ysgol yn Amlwch, ond mi ddylchwelodd fel aelod llawn o'r criw yn tua 1919. Ei

phrif ddyletswyddau oedd coginio, ond mewn tywydd garw mi fyddai hefyd yn cadw wtash gyda'r met. Unwaith, a'i thad y Capten yn dioddef o ffliw, llywiodd "Lizzie" y llong i fyny'r Solent i'r harbwr, er mawr syndod i'r Peilot. Mae nifer o straeon amdani hi yn llyfrau Robin a Dad : yn amlwg, mi roedd Lizzie Jones yn "hands on" go iawn !

Mae yna un stori arall werth cyfeirio ati cyn cloi : unwaith eto yn ymnweud a'r *Langdale*. Ychydig fisoedd ar ol geni Moraned, roedd y Langdale yn hwylio o Hamburg yn 1909 ac wedi cyrraedd y Doldrymau, ychydig i'r Gogledd o'r cyhydedd, pan welsant y llong "*Kircudbrightshire*" llong Capten David Roberts, Dolgellau yn agosau. Allan a'r fflagiau yn gwahodd Capten Roberts a'i deulu i gael te ar y *Langdale*, ac wedyn drannoeth, gwahoddwyd teulu'r *Langdale* i gael te ar y "*Kircudbrightshire* (Ker-coo-bree-shire). Mae dyddiadur Ellen Jones yn dangos mor falch oedd hi i gwrdd a merch arall yng nghanol y môr mawr.

"Meddyliwch amdanynt am funud," mae Nhad yn ysgrifennu "dau deulu hollol Gymreig yn cael te, a'r plant braidd yn swil i ddechrau hwyrach, ond yna'n darganfod y llong newydd, a chyfeillion newydd, y gwagedd yn brysur yn trafod eu profiadau, a'r capteiniaid yn cadw llygad barcud ar y tywydd fel y cerddent ar y pŵp, a'r ddwy long hardd yn rowlio'n anesmwyth yn nhawelwch y doldrymau, fel petasent yn anifeiliaid annifyr allan o'u helfen, yn dyheu am neidio o flaen y gwynt yn hytrach nag aros yn eu hunfan, yn gwichian mewn protest am fod mor ddiymadferth."

Cofier, mi roedd teuluoedd y Capteiniaid yn cael y pleser o dorri unigrwydd eu mordeithiau hir ar y lan o bryd i'w gilydd, pan gyrhaeddant borthladdoed a chw'rdd â theuluoedd eraill felly - dyma d9m ond un enghraifft i chi : ym mis Mehefin 1905 ym mhorthladd Valpariso, roedd yna hanner cant o longau wedi angori, 12 ohonynt gyda Capteiniaid o Gymru, a 4 o rheiny o Nefyn Ond, serch hynny, dychmygwch mor unigryw oedd y ddau te parti yna, ar y mor mawr, yn y Doldrymau !

Un nodyn bach arall am Elen Jones wnaeth neud i mi chwerthin : ar un o'i 'discharge certificates' fe cyfeirir ati fel "Stewardess" gyda'r sylw "V.G" - hynny yw "Very Good" wrth ymyl ei henw. Mae'n debyg bod ei gwr y Capten Griffith Jones wedi dweud dylid cywiro'r sylw gan roi'r llythrennau "VT" yn eu lle - sef "Very Talkative" ! Ond er yr hiwmor, gellid dychmygu, wrth glywed y straeon yma, cymaint roedd y Capteiniaid yn hiratheu am ddyddiau fel hyn, pan aeth eu plant yn rhy hen i deithio gyda nhw rhagor... mae'n rhaid bod y llongau - a chaban y Capten - wedi teimlo'n unig iawn unwaith iddynt adael. Ac mae'n siwr bod hyn yn wir am weddill y criw hefyd : gan fod yna straeon o'r criw yn gwneud dilad a thegannau a dolis i blant y Capten tra roeddynt yn cyd-deithio â nhw.

Cloi

A dyna ni - gobeithio eich bod wedi mwynhau'r mordaith - arwynebol braidd - yma drwy peth o waith Aled a Robin - mae yna gymaint mwy yn eu hysgrifau, ac yn amlwg mwy eto i ddarganfod, am gysylltiad merched a'r môr yn Nghymru. A'r peth gorau ydi, bod y ddau yn sgwennu gydag arbenigedd yr hanesydd, ond hefyd gyda thrwch o gydymdeimlad a chariad tuag at ddynoliaeth y morwyr a'r merched yma : mae'r hanes wir yn dod yn fyw.

Hoffwn orffen gyda geiriau Robin :

"Gair benywaidd yw llong yn y Gymraeg, a hyd yn oed yn Saesneg, mae hanes personoli'r llong fel rhywbeth benywaidd yn mynd y ôl i'r Oesoedd Canol. Mae hyn yn wir drwy'r byd gorllewinol." A Robin ymlaen i ddyfynnu'r hanesydd Frances Steel "going to sea was hazardous, and threw men into an intimate relationship with their ship". "Yn feundyddiol" mae Robin yn parhau, "byddai'r llong yn eu diogelu, yn eu cynnal ac yn eu cysgodi ; roedd yn bartner iddynt ac yn meddu ar osgeiddrwydd arbennig."

Fel oedd eu gwragedd, boed rheiny adre yn aros amdanynt, neu'n teithio'n gwmni iddynt. Yn eu diogleu a'u cysgodi - ac yn meddu ar osgeiddrwydd arbennig".

MANON EAMES

Women Anglesey and the Sea

In this talk Manon Eames paid tribute to the pioneering works of two maritime historians – her father, Aled Eames, and Robin Evans, as they revealed through their research and their publications women’s contribution to the colourful maritime tradition of Wales, and Anglesey in particular.

Manon took us on a journey with the sea captains’ wives to sail Round the Horn, with vivid descriptions of the dangers and the loneliness, giving birth to babies on the high seas but also enjoying the odd tea party in the doldrums! The wives of the ordinary seamen had to stay at home and had to be ‘both father and mother’, as Robin Evans says, to their children, and they would have lived day by day in fear, because losses at sea were so unpredictable and cruel. It was sobering to hear that more Welsh men were lost at sea in 1900 than in mining accidents.

The talk also discussed the fishing and marram grass industries of Anglesey and it was good to hear two forgotten but pioneering women receiving the credit they deserve: Ann Edwards, Caernarfon who was so successful as a teacher of navigation to the sailors of north Wales and Frances Williams, the founder of the lifeboat service on Anglesey.